Rhenti Tai Cyngor

GWYBODAETH GYFFREDINOL

EIN HYMATEB I GASGLU RHENT

Rydym yn annog taliad prydlon ac yn darparu cymaint o ddulliau talu ag y bo modd.

Os ydych mewn ôl-ddyled, ein nod yw i ddod i gytundeb gyda chi ar sut y byddwch yn talu. Rydym yn cynnig cyngor ar fudd-daliadau tai ac yn eich cynorthwyo i geisio cynhorthwy pellach os oes angen.

Llinell Gymorth 01495 235600 neu anfonwch neges destun gyda renthelp i 81400

SUT ALLA I DALU FY RHENT?

1. DEBYD UNIONGYRCHOL - Talu'n ddi-helynt gyda gwarant
Mae'r Cyngor yn cynnig taliad untro o £20.00 (wedi'i gredydu i'ch cyfrif rhent) i bob tenant sy'n newid eu dull talu i Ddebyd Uniongyrchol. Bydd y debyd uniongyrchol yn cael ei gymryd yn fisol fel ôl-daliad ar **ddiwrnod gwaith olaf** y mis.
Cysylltwch â'r adran rhenti ar 01443 811450 i drefnu bod ffurflen ddebyd uniongyrchol yn cael ei hanfon atoch chi.

2. GYDA CHERDYN DEBYD/CREDYD
I wneud taliad gydag ymgynghorydd, cysylltwch â 01443 866570.
Mae llinell dalu awtomataidd ar gael 24 awr y dydd saith diwrnod yr wythnos ar 01443 863366.

3. TALIADAU AR-LEIN
I wneud taliad ar-lein ewch i wefan Cyngor Caerffili, sef
www.caerffili.gov.uk/cysylltu-a-ni/Gwasanaethau-Ar-lein
Sicrhewch fod gennych eich rhif cyfrif rhent llawn.

4. ARCHEB SEFYDLOG/ARCHEB Y BANCWR
Mae modd sefydlu Archeb Sefydlog gan ddefnyddio gwasanaeth bancio ar-lein neu trwy gysylltu â'ch banc. Bydd angen i chi ddyfynnu eich cyfrif rhent, ein cyfrif banc yw 83532550, y cod didoli yw 20-10-42 ac enw'r cyfrif yw "Caerphilly County Borough Council".

5. CERDYN TALU SWYDDFA BOST
Mae modd archebu Cerdyn Talu Swyddfa Bost trwy glicio ar y ddolen isod
www.caerphilly.gov.uk/Services/Make-a-payment/Post-office-cards?lang=cy-gb
Neu trwy gysylltu â'r adran rhenti ar 01443 811450 i drefnu bod un yn cael ei anfon atoch chi.

BUDD-DAL TAI
I denantiaid sydd naill ai yn derbyn incwm isel neu yn ddi-waith, mae Budd-dal Tai neu'r elfen cost tai y Gredyd Gynhwysol gael i gynorthwyo'r taliad o rhent. I wneud cais cysylltwch â'r rhif isod.

Chi sy'n gyfrifol am dalu eich rhent a rhaid i chi dalu unrhyw swm nad yw'n cael ei dalu gan Fudd-dal Tai neu gostau tai credyd cynhwysol. Byddwn ni hefyd yn disgwyl i chi wneud trefniadau i dalu unrhyw ôl-ddyledion sy'n ddyledus. Gall ôl-ddyledion gynyddu yn gyflym iawn, os nad ydych yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdano neu ddim yn ail ymgeisio pan bydd eich amgylchiadau yn newid neu pan yr adolygir eich cais.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

RHENTI TAI **01443 811450**
TRETH Y CYNGOR **01443 863002**
BUDD-DAL TAI **01443 864099**

ANAWSTERAU TALU RHENT

Beth ddylwn ei wneud os na allaf dalu fy rhent?
Mi ddylech gysylltu â swyddog o'r adran rhenti YN SYTH - Rhif Ffôn: 01495 235600.

Pa gyngor y byddwch yn ei roi i fi?
Mae'r Cyngor bob amser yn cydymdeimlo â phroblemau ei denantiaid ac yn gyffredinol bydd cytundeb yn gallu cael ei wneud i glirio'r ddyled. Byddwn yn dweud wrthoch sut i geisio am Fudd-dâl Tai a hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am wasanaethau cynghori dyled megis Canolfan Cyngor ar Bopeth.

Beth sydd yn digwydd os oes gennyf ddyled o sawl wythnos ac yn methu ei dalu?
Ar ôl i ni ymweld â chi / ysgrifennu atoch, byddwn yn danfon hysbysiad ceisio meddiant, sef y cam cyntaf tuag at weithrediadau llys.

Beth sydd yn digwydd mewn gwrandawiad Llys Sirol?
Yn y gwrandawiad Llys mi fydd y Barnwr yn gwrando ar y ffeithiau ac yn penderfynu i ganiatáu gorchymyn meddiant neu peidio. Ynghyd â rhoi eich cartref mewn risg mi fydd y Dyfarniad Llys Sirol yn effeithio ar eich gallu i gael credyd yn y dyfodol.

CADARN OND TEG

Mi fydd tenantiaid sydd ag anawsterau ariannol yn cael eu cynorthwyo gyda'r Cyngor cymaint ag y bo modd. Serch hynny, os oes rhent yn ddyledus i'r Cyngor mi fydd yn gwneud yr hyn oll y medr i adfer y symiau sydd yn ddyledus.

DIM RHENT - DIM CARTREF

Gall fethu â chynnal eich rhent olygu eich bod yn colli eich cartref, CYSYLLTWCH Â NI NAWR os ydych yn profi anhawsterau!

Llinell Gymorth 01495 235600

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Is-adran Rhenti,
Cyfeiriad Cyfathrebu:
Blwch Post 129, Hengoed, CF82 9BQ

Cyfeiriad Ymweld:
Canolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7FN

E-bost: rhenti@caerffili.gov.uk